

## Prosiect Teithwyr i'r Cymru - European Travellers to Wales Project

Betws-y-coed	Georg Dittler	1830	Hydrotechnische Bemerkungen gesammelt auf einer Reise durch England, Holland, Nord- und Süddeutschland im Jahre 1830
--------------	---------------	------	---

“Mae llinell ganol y bont [Pont Waterloo] yn syth uwchlaw llif dŵr yr afon sydd â glannau arbennig o uchel yn y fan hon.

Mae'r ddwy asen allanol wedi'u haddurno mewn modd arbennig: mae'r hytrawstiau bwaog 20 modfedd o daldra â rhwyllwaith celfydd sy'n ffurfio cadwyn o lythyrau sy'n darllen, “This arch was constructed in the same year the battle of Waterloo was fought.”

Yn y pedwar sbandrel gwelir gwaith haearn bwrw o'r mwyaf crefftus ar ffurf rhosyn, arwyddlun Lloegr, ysgallen, arwyddlun yr Alban, meillionen, arwyddlun Iwerddon ac yn olaf, cenhinen, arwyddlun Cymru. Mae'r ddau olaf yn wynebu i fyny'r afon ac mae'r ddau gyntaf ar y sbandrelau sy'n wynebu i lawr yr afon. Cynlluniwyd a gwnaed y gwaith hwn, hefyd, gan y peiriannydd Telford. Agorwyd y bont i'r cyhoedd yn y flwyddyn 1816. Lled y bont yw 32 troedfedd; mae palmant uwch na'r ffordd ar y ddwy ochr ynghyd â rheilliau canllaw sydd wedi'u haddurno'n chwaethus.”

“The centre line of the [Waterloo] bridge lies perpendicular to the water stream of the river which has particularly high banks in this spot.

The two outer ribs have been decorated especially: the 20 inch-high arched girders display artful trellis work consisting of a set of letters that read, ‘This arch was constructed in the same year the battle of Waterloo was fought.’

The four spandrels contain the most accomplished cast ironwork in the shape of a rose, the emblem of England, a thistle, that of Scotland, the shamrock as symbol of Ireland, and finally the leek, the symbol of Wales, whereupon the latter two have been installed upstream and the former two are situated in the spandrels facing downstream. This work, too, was engineered and carried out by the engineer Telford. It was opened to the public in the year 1816. The width of the bridge measures 32 feet; it has a raised pavement on both sides and tastefully decorated parapet railings.”

“Die Axe dieser [Waterloo] Brücke liegt rechtwinklicht über dem Stromstrich des Flusses, der hier besonders hohe Ufer hat.

Die beiden äussern Rippen sind besonders verziert und tragen in ihren 20 Zoll hohen Bogenkränzen ... eine künstlich durchbrochene Arbeit, welche in einer Zusammensetzung von Buchstaben besteht, deren englischer Text im Deutschen ungefähr also lautet: “diese Brücke wurde im demselben Jahre gegründet, als die Schlacht von Waterloo geschlagen ward.”

In den vier Gewölbwinkeln der zwei Stirnrippen finden wir in vollendeter Gussarbeit eine Rose, als Emblem von England, eine Distel, als solches von Schottland, das dreilätzige Kleeblatt als Sinnbild von Irland und endlich den Lauchstengel, als jenes von Wallis, wobei die beiden letzern Bilder in der flussaufwärtsstehenden und die beiden erstern in der flussabwärtsstehenden Stirnrippe angebracht sind. Auch dieser Bau ist von dem Ingenieur Telford projectirt und ausgeführt worden. Im Jahr 1816 wurde er dem Publikum geöffnet. Ihre Breite misst 32 Fuss, sie hat erhöhte Fusswege und ein geschmackvoll verziertes Geländer.”

“La ligne centrale du pont [Waterloo] est perpendiculaire au flux d’eau de la rivière qui a des rives particulièrement élevées à cet endroit.

Les deux nervures extérieures ont été particulièrement décorées : les poutres voûtées hautes de 20 pouces affichent un treillage artistique composé d’un ensemble de lettres qui se lisent ainsi : “Cet arche a été construite l’année-même où a eu lieu la bataille de Waterloo.”

Les quatre tympans contiennent les moulages décoratifs en fer très réussis, en forme de rose, l’emblème de l’Angleterre, de chardon, l’emblème de l’Écosse, de trèfle, le symbole de l’Irlande, et enfin de poireau, le symbole du pays de Galles, sur lesquels les deux derniers ont été installés en amont et les deux premiers sont situés dans les tympans face à l’aval. Cet ouvrage fut également conçu et réalisé par l’ingénieur Telford. Le pont ouvrit au public en l’année 1816. Le pont a une travée de 32 pieds ; il a un trottoir des deux côtés et un garde-fou décoré avec goût.”

## Prosiect Teithwyr i'r Cymru - European Travellers to Wales Project

Betws-y-coed	Julius Rodenberg	1856	Ein Herbst in Wales
--------------	---------------------	------	---------------------

“Megis llun tywyll yn llawn o irder a chlaearder y goedwig, fe’n croesawyd yn fuan gan Fetws-y-coed, pentref y pontydd. Fe’i gelwir felly ar ôl pont, Pont-y-pair [eglurir yr enw], uwchlaw’r afon [Llugwy] yn y lle hwn. Roedd bwâu Pont-y-pair, a oedd wedi’u gorchuddio’n llwyr gan dyfiant gwyrdd gwyllt, yn ffrâm i un o’r darluniau prydfferthaf a welais erioed. Taranai’r dŵr dros y creigiau ac o’r hamgylch; ar glogfaen mwsoglyd wedi’i amgylchynu gan y dŵr pefriog, gwelais ffurfiau ifanc tair merch, ysbrydion y nant hon!

Disgleiriai’r machlud euraid yn nrych y dŵr. Llewyrchai tân ar hyd glan yr afon, gan dorri drwy frigau gloyw’r pinwydd cochaid a chan dynnu sylw oddi wrth y prysgwydd gwyrdd tywyll. Eisteddai gwraig hardd o Gymraes ar wal gardd y tu ôl i’r coed, gyda phlant mewn dillad gwynion yn chwarae o’i chwmpas. Ar y lan arall, codai mwg glas o efail, a hedfanai gwreichion gloyw gan glindarddach a disgyn yn y diwedd fel cawod aur dros y dŵr tywyll. Hyn oll a welais ar gefndir o goedwig werdd a chyfnos persawrus. Aeth y cyfan heibio i mi megis breuddwyd ddisglair.”

“Like a dusky image full of brilliance and the freshness of the forest, Betws-y-Coed, the village of bridges, soon welcomed us. It is called that after a bridge, Pont-y-Pair or the Bridge of the Cauldron, passing over the river [Llugwy] at this spot. The arches of Pont-y-Pair Bridge, covered entirely by untamed greenery, framed one of the loveliest images I ever beheld. The water

thundered over the rocks and all around me; situated on a mossy boulder enclosed by bubbling water, I witnessed the youthful shapes of three women, the naiads of this stream! The golden sunset glistened in the water mirror. A fire gleamed along the riverbank, breaking through the stems of the reddish glowing fir trees and outshining the dusk-green undergrowth. A comely Welsh woman sat on a garden wall behind the trees, children in white garments playing around her. On the opposite side, blue smoke rose from a smithy, glowing sparks flew and crackled and finally rained down over the dark water like a shower of gold. All this I saw in front of a green forest background and a fragrant dusk. It all passed by me like a radiant dream."

"Als ein Dämmerbild voll Frische und Waldkühle trat uns bald das Dörflein Betwys y Coed, das Brückendorf, entgegen. Es heißt so wegen einer Brücke, der s. g. Pont y Pair oder Kesselbrücke, die hier über den [Llygwyl] führt. Der Brückenbogen von Pont y Pair, mit wildem Gewächs ganz behangen, umspannte mir eins der lieblichsten Bilder, die ich jemals gesehn. Über den Felsen, rings um mich, donnerten die Waßer; in einem Moosfelsen gelagert, und vom Waßer umstrudelt, sah ich drei jugendliche Frauengestalten, die Nixen dieses Stromes! Im Waßerspiegel glänzte das Gold der Abendröthe. Am Ufer durch Tannenstämme, die bis oben hinauf röthlich beleuchtet waren, glühte ein Feuer und überstrahlte das dämmergrüne Gebüsch. Eine reizende Waliserin saß auf der Gartenmauer hinter den Bäumen; Kinder in weißen Gewändern umspielten sie. Und zur andern Seite, aus einer Schmiede stieg blauer Dampf empor, glühende Funken flogen und knisterten darin und fielen zuletzt wie ein Goldregen über das dunkle Waßer nieder.

Und alles Das auf einem grünen Waldhintergrunde und in duftiger Dämmerung. Es gieng mir wie ein glänzender Traum vorüber.”

“Comme une image sombre pleine d'éclat et de fraîcheur de la forêt, Betws-y-Coed, le village des ponts, ne tarda pas à nous accueillir. Il est appelé de ce nom d'après un pont, Pont-y-Pair ou le pont du chaudron, passant au-dessus de la rivière [Llugwy] à cet endroit. Les arches de Pont-y-Pair, couvertes entièrement de verdure sauvage, encadraient l'une des plus belles images que je n'ai jamais vues. L'eau tonnait sur les rochers et tout autour de moi ; situé sur un rocher moussu entouré d'eau bouillonnante, je voyais les formes juvéniles de trois femmes, les naïades de ce courant ! Le coucher du soleil doré brillait dans le miroir d'eau. Un feu brillait le long de la berge, passant à travers les tiges des sapins lumineux rougeâtres et surpassant le crépuscule vert des sous-bois. Une femme avenante galloise était assise sur le mur d'un jardin derrière les arbres et ses enfants revêtus de vêtements blancs jouaient autour d'elle. De l'autre côté, de la fumée bleue s'élevait du toit du forgeron, des étincelles lumineuses fusaient, crépitaient et tombaient finalement sur les eaux sombres comme une douche d'or. Tout cela, je l'observais en face d'une forêt verte qui occupait l'arrière-plan et sous un crépuscule parfumé. Tout cela passa devant moi comme un rêve resplendissant.”

## Prosiect Teithwyr i'r Cymru - European Travellers to Wales Project

Betws-y-coed	Marie-Anne de Bovet	c. 1880	En Angleterre
--------------	------------------------	---------	---------------

“Yn Ffos Noddun, agen ddofn a chul a gerfiwyd i mewn i'r graig fyw gan Afon Conwy sy'n llamu yn y gwaelod mewn trobyllau o ewyn, mae'r arlunwyr tirwedd yn meddiannu gwely'r cenllif ei hun, lle, heb boeni am yr annwyd y gallent ei ddal, byddant yn llafurio'n ddygn i gipio'r un effaith o oleuni ar y dŵr, y dail a'r creigiau. Cyflawnir troseddau ofnadwy yn erbyn celfyddyd yma! Ond mae gwrthrych y darluniau'n gysur i'r copïwyr, ac o leiaf mae i'r math hwn o ymwelwyr y fantais nad ydynt yn swnllyd.”

“In the Fairy Glen, a deep and narrow crevice carved in the active rock by the Conway, that tumbles down there in whirlpools of foam; the landscape painters invade the very bed of the torrent, where, without a care for the cold they might catch; they labour diligently to capture the same effect of the light on the water, the leaves and the rocks. Terrible crimes against art are committed here! But the model consoles the copies, and, if they take up space, at least this type of tourist has the merit of not being noisy.”

“Im Fairy Glen, eine schmale, tiefe Spalte, die vom Wasser des Conwy-Flusses in den Stein gegraben wurde, der dort als schäumende Wasserwirbel hinabfällt. Die Landschaftsmaler stellen sich mitten in das Flussbett, wo sie, nichtachtend der Erkältung, die sie sich zuziehen könnten, versuchen, das

Spiel des Lichts auf Wasser, Blättern und Fels auf die Leinwand zu bannen. Schreckliche Verbrechen an der Kunst werden hier begangen! Aber das Original tröstet über die Kopien hinweg und, obwohl sie Platz einnehmen, hat diese Art Tourist wenigstens den Vorteil, nicht laut zu sein.”

“Dans la gorge des Fées, profonde et étroite crevasse creusée dans le roc vif par le Conway, qui y dégringole en tourbillons d’écume, les paysagistes envahissent le lit même du torrent, où, sans crainte des coryzas qui les guettent, ils piochent diligemment le même effet de lumière frissante sur l’eau, le feuillage et les rochers. Il s’y commet de lamentables crimes de lès-art! Mais le modèle console des copies, et, s’ils tiennent de la place, les touristes de cette espèce ont du moins le mérite de n’être pas bruyants.”

### Prosiect Teithwyr i’r Cymru - European Travellers to Wales Project

Betws-y-coed	Wilhelm Heine	c. 1860	Ein Sommerausflug nach Wales
--------------	---------------	---------	------------------------------

“Mae’r ffordd i mewn i Fetws-y-coed yn nodedig oherwydd yr olygfa ddeniadol o grŵp o dai gerllaw pont o’r bymthegfed ganrif, Pont-y-pair. Gwaith saer maen lleol o’r enw Howel yw’r bont, sydd â phedwar bwa afreolaidd wedi’u gorchuddio gan eiddew uwchlaw rhaeadr gyflym ei llif. Yn nes i lawr, llifa Llugwy’n dawel nes cyrraedd Afon Conwy hanner milltir



ymhellach. Mae'r ardal yn ffeffryn gydag arlunwyr tirwedd o Loegr, a gellir gweld eu parasolau mewn gwahanol leoedd ledled y dyffryn. Mae'r amrywiol ddyffrynnoedd sy'n cyfarfod yma'n cynnig amrywiaeth wych o dirweddau darluniadol, bugeiliol a rhamantus. Gwelir clogwyni o bob mathau a ffurfiau un ai yn eu gwychder noeth neu wedi hanner eu gwisgo â thyfiant trwchus. Tyf coed derw ceinciog yn gadarn a balch, coed ffawydd gosgeiddig, coed pinwydd sinistr yr olwg a ffynidwydd main un ai wedi'u gwasgu at ei gilydd mewn coedwigoedd neu ar eu pen eu hunain o gwmpas y dyffrynnoedd ac ar hyd y llethrau. Ceir nifer fawr o fannau lle mae dyfroedd gwyllt a rhaedrau yn y ddwy afon."

"The entrance to Betws-y-Coed is notable for the picturesque setting of a group of houses situated by a fifteenth-century bridge, Pont-y-Pair. The latter, consisting of four ivy-covered, irregular arches above a sprightly waterfall, is the work of the local mason Howel. Further downstream, the Llugwy runs calmly until it flows into the river Conwy another half mile onwards. This spot is the favourite location of English landscape artists, whose white parasols can be spotted in different locations all around the valley. The diverse valleys that join up here, provide the most varied prospects of idyllic, pastoral and romantic landscapes. Craggs of all shapes and types display themselves either bare and in grand style, or they are partially overgrown with rich vegetation. Gnarled, firm proud oaks, graceful beeches, sinister pines and slender firs clump together in woodland or are dotted singly around the valleys and along the slopes. Both rivers contain a great number of rapids and waterfalls."

“Der Eintritt von Bettws-y-Coed wird auf malerische Weise durch eine Gruppe gothischer Häuser neben einer aus dem fünfzehnten Jahrhundert herrührenden Brücke, Pont-y-Pair, bezeichnet. Letztere, aus vier unregelmäßigen mit Epheu überwachsenen Bogen bestehend, unter denen ein munterer Wasserfall durchhüpft, ist das Werk des eingeborenen Maurers Howel. Weiter unten fließt der Llugwy ruhig, bis er sich eine halbe Meile weiter in den Conway ergießt. Dieser Ort ist ein Lieblingsaufenthalt englischer Landschaftsmaler, deren weiße Schirme man thalauf und thalab an verschiedenen Orten wahrnimmt. In den verschiedenen Thälern, die sich hier vereinigen, findet man die verschiedenartigsten Vorwürfe, idyllischer, pastoraler und romantischer Landschaft. Felsen aller möglichen Arten und Formen sind entweder nackt und in großen Formen zu finden, oder theilweise von reicher Vegetation bedeckt; knorrige, kräftige stolze Eichen, graziöse Buchen, düstere Kiefern und schlanke Tannen sind einzeln, in Gruppen oder Gehölzen über Thäler und Hänge verstreut und beide Flüsse enthalten eine große Anzahl von Stromschnellen und Fällen.”

“L’entrée de Bettws-y-coed est remarquable pour le cadre pittoresque d’un groupe de maisons situé à côté d’un pont du XVe siècle, Pont-y-Pair. Ce dernier, composé de quatre arches irrégulières couvertes de lierre, au-dessus d’une cascade rafraîchissante, est le travail du maçon local Howel. Plus loin en aval, le Llugwy coule calmement jusqu’à ce qu’il se jette dans la rivière Conway un demi-mille en avant. Cet endroit est le lieu favori des paysagistes anglais, dont les parasols blancs peuvent être repérés en différents endroits tout autour de la vallée. Les diverses vallées qui se rejoignent ici fournissent

les perspectives les plus variées de paysages idylliques, pastoraux et romantiques. Des rochers de toutes formes et types s'exposent découverts et en grand style, ou ils sont partiellement envahis par la végétation riche. De solides chênes noueux et fiers, des hêtres gracieux, des pins sinistres et des sapins élancés s'agrègent en forêts ou sont parsemés séparément autour des vallées et le long des pentes. Les deux rivières contiennent un grand nombre de rapides et de chutes."